**EITEM AR YR AGENDA: 14**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2009**

**ADRODDIAD MONITRO I FWRDD YR IAITH GYMRAEG**

**Adroddiad gan Colin Hanks**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

**1** Ceisio cymeradwyaeth i Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2008-09 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Cefndir**

**2** Bob blwyddyn, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad manwl ynghylch ei Gynllun Iaith Gymraeg i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n nodi'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd â'r targedau sydd yng Nghynllun Iaith y Gwasanaeth 2006-2009.

**Gwybodaeth**

**3** Y llynedd, fe gymeradwywyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gyflwyno adroddiad cynhwysfawr oedd yn dangos cynnydd o ran gweithrediad y Cynllun Iaith yn ystod 2007-08.

**4** Mae'r adroddiad eto eleni'n amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau dwyieithog i bobl Gogledd Cymru.

**5** Bu'r cyfnod 2008-09 yn arbennig o lwyddiannus gyda lansiad y Strategaeth Sgiliau Iaith sy'n dangos ein hymrwymiad i'r Gymraeg ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod newydd o'r staff, a'r rhai sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, ddysgu lefel sylfaenol o Gymraeg. Fe wnaeth y Gwasanaeth, ar y cyd â Choleg Llysfasi a chyngor gan Heddlu Gogledd Cymru, lunio a recordio dau CD newydd i arwain dysgwyr y Gymraeg trwy'r broses o ddysgu cyfarchion sylfaenol a sut i ynganu – ac mae gofyn i bawb sy'n cael eu penodi neu eu dyrchafu o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o fis Ionawr 2009 ymlaen gymryd rhan mewn prawf llafar yn y Gymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ynganu enwau a chyfarch pobl yn gywir.

**6** Fel rhan o'r Strategaeth Sgiliau Iaith, mae pob aelod o'r staff yn y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith er mwyn tynnu sylw at ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd.

**7** Mae'r Adroddiad Monitro hefyd yn tynnu sylw at y ffaith ein bod wedi cyflwyno'n llwyddiannus fewnrwyd ddwyieithog i'r Gwasanaeth, sy'n cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ein gweithle.

**8** Daeth archwiliad o'n gweithdrefn gwynion gan Fwrdd yr Iaith, a oedd yn edrych yn benodol ar y modd yr ydym yn ymdrin â chwynion ynghylch y Gymraeg yn y Gwasanaeth, i'r casgliad ein bod yn cynnig gwasanaeth o safon uchel iawn i aelodau'r cyhoedd. Yn ystod 2008/09 ni wnaethom dderbyn unrhyw gwynion ynghylch y Gymraeg.

**Argymhellion**

**9** Bod yr aelodau'n nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Iaith, a chymeradwyo Adroddiad Monitro 2008-09 cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.